



Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
Cyfarfod rhithwir
Dydd Iau 17 Mawrth 2022

Cofnodion

Yn bresennol

Mark Drakeford AS	Prif Weinidog Cymru (Cadeirydd)
Jeff Cuthbert	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Gwent (Cyd-gadeirydd)
Jane Hutt AS	Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Simon Hart, Aelod Seneddol,	Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Kit Malthouse, Aelod Seneddol	Gweinidog dros yr Heddlu a Gostwng Troseddau
Asim Hafeez	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref
Jeremy Vaughan	Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Pam Kelly	Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
Carl Foulkes	Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
Claire Parmenter	Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
Amanda Blakeman	Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent
David Thorne,	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru
Oliver Petty,	Swyddog Staff i'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Gwent
Andy Dunbobbin	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
Alun Michael	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Eleri Thomas,	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
Reg Kilpatrick	Cyfarwyddwr Cyffredinol Ymateb Covid-19, Llywodraeth Cymru
Jon Drake	Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru
Karin Phillips	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
Tracey Breheny	Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed Llywodraeth Cymru
Lynne Neagle AS	Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Judith Paget	Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Alun Davies	Uned Gyswllt yr Heddlu
James Searle	Pennaeth y Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Siân Brown	Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
Jayne Phillips	Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru
Leanne Lewis	Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru
Alison Plant	Pennaeth y Tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Llywodraeth Cymru
Paul Webb	Pennaeth Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant, Llywodraeth Cymru
Sarah Rhodes	Pennaeth Atal Digartrefedd
Carl Spiller	Uwch-swyddog Atal Digartrefedd
Chris Jennings	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
Tracy Cooper	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Joanne Hopkins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sarah Capstick	Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLILC
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLILC
Sian Curley	Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
Kirsty Stevenson	Uwch-reolwr Portffolio, Y Swyddfa Gartref yng Nghymru
Harry Gerrard	Swyddog Cefnogi Datganoli, Y Swyddfa Gartref yng Nghymru
Joanna Huddleston	Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu
<u>Ymddiheuriadau</u>	
Richard Lewis	Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dyfed Powys

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Paul Morris	Pennaeth Uned Gyswilt yr Heddlu
Judith Paget	Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru (o 2pm ymlaen)
Julie James AS	Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Amy Rees	Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru
Asim Hafeez	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref (o 3pm ymlaen)
Emma Thomas	Pennaeth y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol
Mick Antoniw AS	Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Chris Llywelyn	Prif Weithredwr, CLILC
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLILC (o 2:45pm ymlaen)

Materion yn codi o'r cyfarfod

Cyfamod yr Heddlu i'w drafod ym mis Mehefin 2022	
Digartrefedd i'w drafod ym mis Mehefin 2022	
Camddefnyddio Sylweddau i'w drafod ym mis Mehefin 2022	
Uwchgyfeirio'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl	
Hoffai Andy Marsh o'r Coleg Plismona fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod Plismona a Llywodraeth Leol, yn enwedig o gwmpas datblygiadau 101	
Pwysau'r Gwasanaethau Cyhoeddus i'w huwchgyfeirio	

1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Croesawodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford yr holl aelodau i gyfarfod y Bwrdd, gan groesawu aelodau gweinidogol o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig Kit Malthouse Aelod Seneddol, y Gweinidog dros yr Heddlu a Gostwng Troseddau i'w gyfarfod cyntaf â Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

Soniodd y Prif Weinidog fod Plismona yn parhau i gael ei drafod ar lawr Y Senedd a mynegodd ei ddiolchgarwch i bawb am eu hymrwymiad.

2. Diweddariad ar y cyd gan y Gweinidog dros yr Heddlu a Phlisona, Kit Malthouse Aelod Seneddol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart Aelod Seneddol

2.1. Dechreuodd Kit Malthouse Aelod Seneddol, Y Gweinidog dros yr Heddlu a Phlisona, drwy ddweud ar ôl iddo fynychu Digwyddiad Partneriaeth y Swyddfa Gartref gyda Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, mae'n teimlo ei bod hi'n bwysig fod cyfarfodydd fel hyn yn parhau i gael eu cynnal er mwyn trafod materion y mae'r aelodau yn canolbwyntio arnynt i'r un graddau. Esbonodd Kit Malthouse AS ei fod newydd ddychwelyd o ymweliad Strydoedd Mwy Diogel yn Wellingborough a'i fod yn ymwybodol fod cyllid wedi'i ddefnyddio o'r Rhyl i Ferthyr Tudful gyda chryn ddylanwad ledled Cymru. Tynnodd sylw at ba mor hanfodol yw hi i gydweithio oherwydd natur diosgoi troseddau rhyng-gloedig rhwng Cymru a Lloegr. Dywedodd y Gweinidog Malthouse fod heddluoedd Cymru wedi bod yn gweithio'n galed dros ben ar Linellau Cyffuriau ond gallant ond gwneud hynny ar y cyd â heddluoedd Lloegr, fel Glannau Mersi a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Rhoddodd Bangor fel esiampl o'r rhan gyntaf o Gymru i ddatgan ei hun yn rhydd o Linellau Cyffuriau ac ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb Heddlu Glannau Mersi.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Roedd Kit Malthouse AS yn awyddus i dynnu sylw at ambell eitem:

- Cyhoeddodd Llywodraeth y DU strategaeth gyffuriau 10 mlynedd ym mis Rhagfyr 2021 gyda'r bwriad o geisio gwyrddroi marwolaethau o gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Nododd y Gweinidog Malthouse y bydd angen cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod cynlluniau. Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau swm sylweddol o gyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd i drin ac adsefydlu ac mae angen mynd i'r afael â'r galw yn ogystal â'r cyflenwad. Nododd fod De Cymru wedi bod yn dangos y ffordd gyda phrosiect ADDER oherwydd gall y math hwn o ddull wneud gwahaniaeth enfawr.
- Mae a wnelo Cynllun Gorchfygu Troseddu, a lanswyd yn gynharach yn 2021, â chyfleu'r blaenoriaethau strategol a systemig sydd wedi'u gosod trwy'r Bwrdd Plismona Cenedlaethol. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu o ran sut y dylid rhoi'r cynllun ar waith. Pwysleisiodd y Gweinidog Malthouse ei bod hi'n hollbwysig i Lywodraethau Cymru a'r DU gydweithio o ran rhoi'r cynllun hwn ar waith. Byddai hyn yn cwmpasu problemau fel llofruddiaeth, llinellau cyffuriau, trais a throseddau yn y gymdogaeth fel bwrghleriaeth a throseddau ceir, yn ogystal â meysydd pwysig y tynnwyd sylw atynt fel Trais yn Erbyn Menywod a Merched, yn enwedig mewn perthynas â thrais a throseddau rhywiol difrifol. Nododd y Gweinidog Malthouse ei fod yn falch iawn fod De Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn Ymgyrch Soteria ac mae'n deall fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r ffordd y gall Cymru gyfan gymryd rhan.
- Roedd y Gweinidog Malthouse yn awyddus i amlygu er mai dyma'r tro cyntaf iddo fynychu cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, ei fod wedi sylwi bod y gydberthynas rhwng yr Heddluoedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru yn gynhyrchiol ac adeiladol dros ben. Mae'n teimlo bod strwythur y bartneriaeth a natur adeiladol y gydberthynas yn arwain y ffordd i Loegr ac mae'n gobeithio gwneud cyfraniad da i sefydliad uchel ei weithrediad.

Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog am ei gyfraniad a nododd ei fod wedi crybwyll pynciau a fydd yn cael eu trafod heddiw. Gwnaeth y Prif Weinidog atgyfnerthu arsylwadau'r Gweinidog Malthouse nad oedd gan Drosedd na'r Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw ffiniau o safbwynt y dinesydd.

2.2. Dilynodd Simon Hart Aelod Seneddol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymlaen o arsylwadau'r Gweinidog Malthouse drwy ychwanegu bod aelodau o'r grŵp wedi bod yn anelu at lefel uchel o gydweithredu ac ymgynghori ar amrywiaeth o faterion. Amlygodd fod blaenoriaethau Llywodraeth y DU yn gyson â blaenoriaethau'r grŵp hwn.

Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cydweithio a wneir gan yr Heddlu mewn perthynas â chydweithrediad trawsffiniol gan nad yw ffiniau gweinyddol wedi rhwystro'u cynnydd. Mae'n fodlon hefyd fod y Gweinidog Malthouse wedi ymuno â'r cyfarfod hwn gan ei fod mewn sefyllfa i wneud cyfraniad ystyrlon i'r

Not protectively marked – Heb farc diogelu

cyfarfod hwn ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn dod yn batrwm rheolaidd yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Simon Hart am ei fewnbwn a'i bresenoldeb arferol.

3. Cyflwyno Materion Allweddol ar gyfer Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Mehefin 2022

Esboniodd y Prif Weinidog y bydd yr eitem hon yn edrych yn gryno ar ambell i fater allweddol a fydd yn cael eu trafod yn fanylach yng nghyfarfod mis Mehefin 2022 Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

3.1. Cyfamod yr Heddlu

Dywedodd PG Vaughan mai eitem fer yw hon i roi gwybod i aelodau am y cyfarfod am fodolaeth Cyfamod yr Heddlu. Esboniodd mai'r Gweinidog Malthouse yw cadeirydd y gweithgor sy'n arwain Cyfamod yr Heddlu.

Yn ogystal, cododd PG Vaughan y pwynt fod y gwasanaethau brys wedi bod yn cydweithio mewn ffordd nad ydynt wedi'i wneud o'r blaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn dod at ei gilydd i helpu i reoli amgylchiadau eithriadol. Ar hyn o bryd, mae PG Vaughan yn cadeirio'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y cyd lle gwnaethant godi'r posibilrwydd o archwilio Cyfamod Gwasanaethau Brys, y mae PG Vaughan o'r farn y bydd yn ehangu Cyfamod yr Heddlu ac yn adeiladu ar y wybodaeth a'r gwaith ar ôl i'r Cyfamod Lluedd Arfog ddod i rym.

Atgyfnerthodd PG Vaughan mai ei unig fwriad oedd cyflwyno Cyfamod yr Heddlu yn y cyfarfod hwn, a gyda chytundeb yr aelodau, byddai'n trefnu mwy o waith o gwmpas yr eitem ac yn dod yn ôl ym mis Mehefin. Esboniodd fod llawer o waith i'w wneud o gwmpas Cyfamod yr Heddlu, megis ystyried pwy all gael ei ddal ganddo, y goblygiadau ar wasanaethau, pwy i'w heithrio a pham.

Diolchodd y Prif Weinidog i PG Vaughan am ei fewnbwn a dywedodd, o safbwynt Llywodraeth Cymru, eu bod yn frwd o blaid y syniad o Gyfamod Gwasanaethau Brys gyda thirwedd ehangach sy'n cynnwys cydweithwyr o wasanaethau brys eraill. Gwnaeth y Prif Weinidog wahodd sylwadau gan y Gweinidog Malthouse gan ei fod yn cadeirio Bwrdd Goruchwylio Cyfamod yr Heddlu.

Esboniodd y Gweinidog Malthouse fod gwaith yn mynd rhagddo ar Gyfamod yr Heddlu a'r gobaith yw y bydd yn cael ei gymeradwyo'n gyfraith yn ystod yr wythnosau nesaf. Esboniodd ei bod hi'n fwriad i Fwrdd Goruchwylio Cyfamod yr Heddlu fod yn annibynnol ac y byddai'n parhau i gadeirio'r bwrdd yn ystod y cam gweithredu. Mynegodd y Gweinidog Malthouse ei ofid mewn perthynas â sicrhau bod Cyfamod Gwasanaethau Brys Cymru yn cyd-gloi â Chyfamod yr Heddlu. Cynigiodd i'w swyddogion gysylltu ynghylch sut y gall hynny weithio. Dywedodd y Gweinidog Malthouse wrth yr aelodau eu bod yn symud ymlaen yn ofalus ar hyn o

Not protectively marked – Heb farc diogelu

bryd drwy siarad â Swyddogion yr Heddlu a theuluoedd ynghylch beth all y cyfamod ei olygu iddynt hwy.

3.2.Digartrefedd

Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem gan esbonio y bu disgwyl i'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, fod yn bresennol ond yn anffodus, roedd hi'n methu dod, felly byddai ef yn trafod yr eitem yn gryno a'i throsglwyddo i'w gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Carl Spiller a Sarah Rhodes i roi eglurhad pellach. Ailadroddodd y Prif Weinidog mai cyflwyniad i sgwrs ehangach ym mis Mehefin yw hwn ond esboniodd ei fod yn fodlon cymryd unrhyw safbwyntiau gan aelodau nawr.

Nododd y Prif Weinidog y cafwyd ymdrech aruthrol yn ystod y pandemig yng Nghymru i letya'r rhai sydd, fel arall, yn byw ar y stryd, mewn llety addas. Mae niferoedd mawr o bobl mewn llety dros dro o hyd, ond mae'r awdurdodau lleol yn bwriadu darparu llety parhaol i'r bobl hynny.

Nododd y Prif Weinidog er y bu'r prosiect hwn yn llwyddiant ysgubol, mae wedi achosi tyndra mewn cymunedau o gwmpas cyfleusterau sydd wedi'u defnyddio i letya pobl ac na fyddent wedi'u defnyddio at y diben hwnnw fel rheol, a dyna lle y cafwyd rhyngweithio rhwng gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaethau Digartrefedd a gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol. Soniodd y Prif Weinidog hefyd pan ddeuir â swm uchel o bobl sydd wedi dioddef profiadau bywyd heriol at ei gilydd, fel ffoaduriaid o Affganistan ac Wcráin, bydd materion yn codi sy'n syrthio o fewn ystod o Wasanaethau Cyhoeddus sy'n golygu, yn anochel, y bydd angen i'r gwasanaethau yng Nghymru gael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion. Y rheswm am gynnwys hyn ar agenda mis Mehefin yw er mwyn sicrhau bod modd rhannu safbwyntiau a chanfod y pwyntiau lle y bydd angen i'r gwasanaethau ymuno a gweithio ochr yn ochr â'i gilydd a'u hystyried o safbwynt amlddisgyblaethol.

Tynnodd y Prif Weinidog sylw at gyfnod yn ystod y pandemig lle cafodd achosion o droi allan eu cadw i isafswm ond mae'n anochel y bydd achosion o droi allan yn digwydd y tu hwnt i'r pandemig. Dangosodd y Prif Weinidog ei werthfawrogiad i wasanaethau'r Heddlu yng Nghymru am eu gwaith gyda Shelter Cymru i sicrhau bod gan Swyddogion y Rheng Flaen y ddealltwriaeth orau o'r gyfraith.

Roedd y Prif Weinidog ar ddeall bod Shelter Cymru yn datblygu modiwl e-ddysgu, sef ffordd arall y bydd gan Swyddogion y Rheng Flaen y ddealltwriaeth orau. Diolchodd y Prif Weinidog i'r Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru am godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn a sicrhau bod adnoddau ar gael ac yn cael eu defnyddio.

Trosglwyddodd y Prif Weinidog y drafodaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru, Sarah Rhodes a Carl Spiller. Dechreuodd Sarah Rhodes drwy ddatgan ei bod hi'n edrych ymlaen yn arw at y sgwrs ym mis Mehefin lle y bydd modd trafod hyn yn fanylach. Ychwanegodd fod esiamplau ardderchog o ymarfer amlasiantaethol yn digwydd ledled Cymru y mae Swyddogion yr Heddlu yn rhan ohonynt.

Estynnodd y Prif Weinidog wahoddiad i aelodau roi eu safbwyntiau.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

3.3.Cododd y Comisiynydd Michael y pwynt fod y ffordd y mae materion yn cael sylw yn y cyfryngau cymdeithasol yn cymhlethu'r ffordd o ddelio â digartrefedd a materion yr ystyrir eu bod yn gysylltiedig â digartrefedd. Esboniodd pan gyfeiriwyd at broblem pan oedd adduned Llywodraeth Cymru i gael rhagor o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghastell-nedd yn cael ei lansio, postiwyd llun a oedd yn gwneud i ganol tref Castell-nedd edrych yn ddireol, yn ôl un arweinydd prif ffrwd.

Dywedodd y Comisiynydd Michael wrth y grŵp fod cryn dipyn o fai yn cael ei roi'n anghywir ar y defnydd o westai i letya pobl ddigartref. Awgrymodd y Comisiynydd Michael y dylid cael trafodaeth ar sut i fynd i'r afael ag effaith ddinistriol y cyfryngau cymdeithasol.

3.4.Dywedodd y Gweinidog Malthouse ei bod yn werth ystyried goblygiadau diddymu'r Ddeddf Crwydradaeth yn ystod trafodaethau mis Mehefin o bosibl. Nododd fod diddymu'r Ddeddf Crwydradaeth yn un o'r pwyntiau y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo iddo ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd. Esboniodd y Gweinidog Malthouse y bydd Llywodraeth y DU yn cymryd uchafswm o 18 mis cyn dechrau diddymu oherwydd bydd angen iddi weld a yw'r Ddeddf Crwydradaeth wedi darparu pwerau i'r Heddlu ddelio â'r cysylltiad rhwng cysgu ar y stryd a throseddu ac oes angen ailadrodd y pwerau hynny mewn ffordd wahanol, os oes eu hangen o gwbl.

3.5.Cytunodd y Comisiynydd Cuthbert ag arsylwadau'r Gweinidog Malthouse. Esboniodd fod digartrefedd wedi cael ei godi fel rhan o waith Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gorchfygu Troseddu.

Esboniodd y Comisiynydd Cuthbert pan gaiff hyn ei drafod ym mis Mehefin, bydd yn disgwyl i Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael mwy i hysbysu yn ei gylch oherwydd nid mater dan arweiniad yr Heddlu yw Digartrefedd ond, yn hytrach, mae'r Heddlu'n bartneriaid â Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector.

3.6.Rhoddodd Chris Jennings wybod i'r grŵp fod digartrefedd yn uchel iawn ar yr agenda o safbwynt Carchardai a Phrawf. Esboniodd fod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, oherwydd, yn anffodus, mae llawer o bobl ddigartref yn dod i gysylltiad â'r HMPPS am eu bod naill ai wedi dod o'r Carchar neu'n mynd i'r Carchar. Roedd Chris Jennings hefyd yn edrych ymlaen at y drafodaeth hon ym mis Mehefin, gan ychwanegu bod gan y gwasanaeth Carchardai gyllid ychwanegol yn dod er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n gadael y Carchar yn gadael heb lety ac mae'n awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol i roi hyn ar waith.

3.7.Atgyfnerthodd Tracey Cooper y pwynt am y gwaith aruthrol sydd wedi bod yn digwydd yn ystod COVID-19 i roi pobl ddigartref mewn llety o safbwynt lechyd y Cyhoedd.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Dywedodd wrth y grŵp fod lechyd Cyhoeddus Cymru yn poeni am ddyfodiad ffoaduriaid o Wcráin felly maent yn cysylltu â'u cymheiriaid o bob rhan o Ewrop i geisio defnyddio dull rhagweithiol a byddai'n hapus i helpu lle y bo'n briodol, er enghraifft lle mae materion iechyd meddwl neu ddomestig yn y cwestiwn. Yn yr adran gwybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid, awgrymodd y gallai Joanne Hopkins roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad cyhoeddus a lanswyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn gynharach yn yr wythnos o gwmpas Cymru wedi'i Llywio gan Drawma.

- 3.8.** Rhoddodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, sicrwydd i'r Gweinidog Malthouse fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwygiad i ddiddymu'r Ddeddf Crwydradaeth sydd eisoes wedi mynd trwy'r Senedd.

Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am eu cyfraniadau. Roedd yn teimlo y bu o ddefnydd mawr a'u bod wedi codi cyfres o linyddau ychwanegol a fydd yn helpu pob un ohonom i sicrhau bod y drafodaeth ym mis Mehefin yn cwmpasu ystod o faterion.

4. Cryfder Gweithio Mewn Partneriaeth Ar Draws Partneriaid Datganoledig ac Annatganoledig yng Nghymru a Chyfleoedd ar gyfer Datblygiad Pellach

4.1. Camddefnyddio Sylweddau

Rhoddodd y Comisiynydd Cuthbert ymddiheuriadau'r Comisiynydd Llywelyn am resymau personol. Rhoddodd wybod y bydd ACC Thorne yn arwain y drafodaeth hon.

Cyflwynodd PG Vaughan yr eitem ac esboniodd iddo gyflwyno papur ym mis Rhagfyr 2019 mewn perthynas â chyffredinrwydd camddefnyddio a cham-drin sylweddau yng Nghymru, gan gynnwys marwolaethau o ganlyniad i gymryd cyffuriau. Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â cheisio herio'r amgylchiadau presennol yn ymwneud â chyffuriau. Esboniodd PG Vaughan fod cryn dipyn wedi digwydd ers hynny, ond mae gweddill y papur fwy neu lai yr un peth. Mewn perthynas â'r brif rôl mewn dwyn troseddwyd cyfundrefnol i gyfrif, fel y rhai sy'n ymwneud â Llinellau Cyffuriau, rhaid i hyn sefyll gyda'r Heddlu. Nododd PG Vaughan fod yr Heddlu wedi gwneud cynnydd aruthrol yn hyn o beth dros y 12-18 mis diwethaf fel gwneud Bangor yn rhydd o Linellau Cyffuriau. Fodd bynnag, nid yw ychwaith wedi newid y ffaith bod angen help ar bobl sy'n ddibynnol iawn ar gyffuriau ond nid yw'r liferi ar gael i'r Heddlu bob amser. Esboniodd PG Vaughan y gallant wneud rhywfaint o waith da gydag ADDER ond mae angen i'r gwasanaethau fod ar gael i'r bobl sydd eu hangen, ac felly bwriedir cyflwyno'r eitem a dod yn ôl am drafodaeth lawn ym mis Mehefin.

- 4.2.** Dilynodd ACC Thorne ddatganiad PG Vaughan fod gwaith Plismona yn edrych i fabwysiadu dull beiddgar o fynd i'r afael â marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru. Dywedodd ACC Thorne wrth y grŵp fod yr Heddlu wedi cael trafodaethau niferus yn hyn o beth a'u bod wedi bod yn ailedrych ar eu proffil o'r farchnad gyffuriau gan ystyried hefyd strategaethau eraill sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Heddluoedd yn y broses o lunio Strategaeth Plismona Cyffuriau Cymru Gyfan a fydd yn cysylltu â strategaethau Cymru a Lloegr.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Esboniodd ACC Thorne fod y maes Plismona yn bwriadu canolbwyntio'u dull gweithredu ar adolygiad y Fonesig Carol Black. Y prif bwynt o'i hadolygiad oedd ei bod hi'n eirioli y dylai'r dull gweithredu anelu at atal, trin ac adfer a dyma sut yr hoffai'r maes Plismona gyfeirio'u strategaeth.

Bydd plismona yng Nghymru yn parhau i weithredu'n ddifflino yn erbyn gwerthwyr cyffuriau ond mae'n credu bod angen gwneud hyn ochr yn ochr â dull lechyd y Cyhoedd. Mae'r Heddluoedd yn edrych i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardaloedd i ystyried y driniaeth sy'n cael ei chynnig, er mwyn sicrhau'r un fwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y triniaethau mwyaf datblygedig fel ystafelloedd trin gyda chymorth diamorphine gan eu bod wedi bod yn hynod effeithiol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.

Soniodd ACC Thorne hefyd fod y maes Plismona yn edrych ar sut y gall ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys a dargyfeirio mewn modd mwy arloesol i atal y system cyfiawnder troseddol rhag cael ei gorlwytho. Nid yw hyn yn cynhyrchu'r canlyniadau gorau bob amser i'r bobl sy'n mynd ati i gamdefnyddio sylweddau.

Pwysleisiodd ACC Thorne ei bod hi wedi dod i'r amlwg fod rhannu data yn hollbwysig mewn perthynas â marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau y bu bron iddynt ddigwydd. Yn anffodus, mae wedi dod i'r amlwg pan na chaiff ymyriadau eu rhoi ar waith, gall arwain at orddosau angheuol o fewn ychydig wythnosau. Fodd bynnag, dangoswyd os rhoddwyd ymyriadau ar waith yn fuan wedi'r digwyddiad, mae'n bosibl atal yr unigolyn rhag cymryd gorddos angheuol.

Mae'r maes plismona hefyd yn awyddus i ddiweddarau ei broffil problemau mewn perthynas â marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru. Bwriad hyn yw deall tueddiadau a bylchau yn y gwasanaeth ac ati.

Esboniodd ACC Thorne fod Heddluoedd yn ceisio deall sut orau i ddefnyddio'r cyllid a ddyrennir i Fyrddau lechyd a Byrddau Cynllunio Ardaloedd. Hoffai'r Heddlu weld rhywfaint o'r cyllid hwn yn symud tuag at ffyrdd mwy arloesol o drin camdefnyddio sylweddau. Esboniodd fod gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cynllunio Ardaloedd ganllawiau sy'n datgan y dylai comisiynu'r Heddlu fod yn seiliedig ar ganlyniadau, ac felly mae'r Heddluoedd yn bwriadu ailedrych ar hyn.

Bydd y cynnig yn cynhyrchu dull gweithredu manylach ac yn dychwelyd ym mis Mehefin.

Gwnaeth y Prif Weinidog annog aelodau o'r grŵp i fynegi eu barn.

- 4.3.** Cytunodd y Gweinidog Malthouse fod hyn yn cysylltu â'r strategaeth gyffuriau 10 mlynedd. Ychwanegodd ei fod yn falch o glywed fod y maes Plismona yn cael ei ystyried fel rhan o'r ateb ac atgyfnerthodd y ffaith bod angen mynd i'r afael â'r galw yn ogystal â'r cyflenwad, rhywbeth sy'n cael ei hyrwyddo drwy brosiect ADDER.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Gwnaeth y Gweinidog Malthouse annog Heddluoedd i ddefnyddio dull daearyddol o ymdrin â'r broblem gan nad yw'r Alban wedi cymryd rhan ym mhrosiect ADDER ac wedi mynd ar drywydd dull cyffredinol. Yn anffodus, mae eu strategaeth wedi cael ei beirniadu. Rhoddodd Norfolk fel esiampl a oedd yn defnyddio'r data a gasglwyd o ffonau gwerthwyr cyffuriau Llinellau Cyffuriau i ddynodi lleoliad eu cwsmeriaid a arweiniodd at ddynodi clystyrau o ddefnyddwyr cyffuriau.

Nododd y Gweinidog Malthouse fod Cymru'n achub y blaen yn y maes hwn ac mae'n credu y bydd yn arwain at ffordd newydd o edrych ar driniaethau, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen buprenorphine dan arweiniad meddyg yng Nghymru a esboniodd fod yr effaith y mae buprenorphine yn ei chael yn rhyfeddol. Fe'i disgrifiodd fel Therapi Disodli Opioid a gwnaeth annog aelodau o'r grŵp i gyflwyno'r defnydd o'r cyffur. Esboniodd ei fod yn ddrud o gymharu â morffin ond mae'n gost-efeithiol oherwydd mai un pigiad hirbarhaol y mis ydyw ac fe allai atal pobl rhag mynd i'r Carchar neu gael Hepatitis o bosibl.

Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Malthouse am ei drafodaeth llawn gwybodaeth mewn perthynas â Buvidal a nododd y byddai'n awyddus i ddysgu mwy yn unol ag awgrym y Gweinidog.

4.4. Nododd Joanne Hopkins fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i'r Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn cynllunio sut i ddatblygu Sector Camddefnyddio Sylweddau Wedi'i Lywio gan Drawma. Bydd yn golygu edrych ar rai o'r elfennau sydd wedi peri pobl i droi at sylweddau er mwyn ymdopi a chydabod y trawma sydd wrth wraidd yr achos am gamddefnyddio sylweddau.

Pwysleisiodd Joanne Hopkins bwysigrwydd mynd i'r afael â'r rheswm y mae pobl yn troi at sylweddau pan fyddant yn eu trin.

4.5. Diolchodd Lynne Neagle AS i ACC Thorne am ei gyflwyniad a chroesawyd yr ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth â Byrddau Cynllunio Ardaloedd. Nododd ei bod hi'n dda gweld ffocws cryf ar arloesi a rhoddodd enghreifftiau o weithio arloesol yng Nghymru fel Naloxone a Buvidal. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Neagle fod £3 miliwn o bunnoedd yn y gyllideb yn 2022-23 ar gyfer Buvidal ac esboniodd fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn cynnal gwerthusiad ynddo. Gwnaeth gydnabod sylwadau Joanne Hopkins ar drin yr achosion wrth wraidd camddefnyddio sylweddau ac mae'n teimlo bod triniaeth Buvidal yn rhoi'r cyfle i ymdrin â rhywfaint o'r trawma sylfaenol.

Nododd y Dirprwy Weinidog Neagle fod swyddogion wedi ysgrifennu at bob Bwrdd Cynllunio Ardaloedd gan anfon copi o'r llythyr at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mawrth 2020. Nododd y llythyr hwn y safle ffeithiol ar ystafelloedd trin â chymorth heroin. Nododd fod pob Bwrdd Cynllunio Ardaloedd wedi cael cyngor y byddai angen i unrhyw benderfyniad ar weithredu gael ei hysbysu gan bartneriaid, gan gynnwys yr Heddlu. Pwysleisiodd y byddai angen i unrhyw gynnyg bwysu a mesur cost treialu

Not protectively marked – Heb farc diogelu

triniaeth â chymorth heroin yn erbyn ei effeithiolrwydd posibl yn yr ardal ddaearyddol.

Soniodd fod ei swyddogion wedi cyfarfod â dau Brif Gwnstabl ar gyfer Cymru ym mis Ionawr i drafod sut y gallent ddatblygu opsiynau triniaeth amgen. Atgyfnerthodd fod Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i gefnogi hyn.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn falch o fod yn rhan o brosiect ADDER a dywedodd y byddai'n awyddus i gael trafodaethau â Llywodraeth y DU er mwyn i Lywodraeth Cymru gael mynediad i gyllid lechyd sydd wedi mynd i rannau o Loegr sydd wedi cymryd rhan, ond nid yw Cymru yn derbyn hwn.

4.6. Cytunodd y Comisiynydd Michael â sylwadau'r Gweinidog Malthouse ar bwysigrwydd y maes Plismona fel rhan o'r ateb, nid yn unig o ran Llinellau Cyffuriau ond hefyd o ran rôl Plismona wrth atal a deall ble y mae problemau'n codi mewn cymuned.

Yn ogystal, croesawodd y Comisiynydd Michael arsylwadau Joanne Hopkins a soniodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi'u cymhell gan ymchwil lechyd Cyhoeddus Cymru ar faterion y mae angen ymateb yr Heddlu arnynt yn y pen draw.

Soniodd y Comisiynydd Michael am drafodaeth â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe lle gwnaethant drafod tair elfen;

1. Atal
2. Gwella effaith a gostwng y gromlin i leihau difrifoldeb troseddau
3. Triniaeth

Ymhelaethodd y Comisiynydd Michael ar elfen y driniaeth drwy dynnu sylw at rai materion gan fod gwahaniaethau ar draws rhai Byrddau lechyd. Esboniodd nad oes fawr o ddiddordeb i'w weld gan rai mewn gwaith partneriaeth.

4.7. Crybwyllodd PG Kelly pa mor wych oedd hi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ill dwy yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Wrth gyfeirio at bwnc camddefnyddio sylweddau, ychwanegodd PG Kelly ei fod yn cyrraedd pob sefydliad ac yn cynyddu'r galw ym mhob sefydliad. Yn ogystal, mae'n cysylltu â gwaith Atal Lladdiadau a Thrais Difrifol yr Heddluoedd.

Trafodwyd mater cyllid mewn perthynas â'r Strategaeth Gyffuriau gan PG Kelly; esboniodd ei bod hi'n ymwybodol bod cyllid wedi bod ar gael i Loegr a chwestiynodd pryd y byddai'n debygol o fod ar gael yng Nghymru.

Gofynnodd PG Kelly i Lywodraeth Cymru am Fyrddau Cynllunio Ardaloedd. Esboniodd er mwyn i hyn weithio, roedd angen iddo gynnwys gweithio mewn partneriaeth a bod angen i wasanaethau fod ar gael yn lleol.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

4.8.Atgyfnerthodd Tracey Cooper bwyntiau Joanne Hopkins a'r Comisiynydd Michael mewn perthynas â'r gorgyffwrdd rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chamddefnyddio sylweddau. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio ledled De Cymru ond mae pandemig COVID-19 wedi rhwystro hyn, felly mae'n awyddus i nodi rhai ardaloedd yng Nghymru lle y gallant dreialu hyn.

Pwysleisiodd Tracey Cooper ei chynnig i gefnogi dull gweithredu lechyd y Cyhoedd o Blismona a byddai'n awyddus i gymhwyso'r un dull at gamddefnyddio sylweddau.

4.9.Roedd y Gweinidog Malthouse yn falch o glywed sylwadau Lynne Neagle ac yn gwerthfawrogi ei barn ar drin yr achos sydd wrth wraidd camddefnyddio sylweddau. Esboniodd fod Buvidal o gymorth i glirio meddwl yr unigolyn i'w alluogi i brosesu beth yw'r broblem.

Aeth y Gweinidog Malthouse i'r afael â datganiad PG Kelly mewn perthynas â chyllid ac esboniodd fod £780 miliwn wedi'i rhoi i'r Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr a fydd wedi cael cyllid canlyniadol Barnett, ac felly dylai Llywodraeth Cymru fod yn derbyn swm ychwanegol o'r cyllid hwnnw.

Mewn perthynas â'r Ardoll Brentisiaeth, dywedodd Kit Malthouse AS wrth PG Kelly ei fod o dan yr argraff iddo ddatrys y mater hwn. Dywedodd rhai aelodau o'r grŵp wrth y Gweinidog Kit Malthouse ei fod heb gael ei ddatrys yn llawn.

4.10.Darllenodd Simon Hart AS o'r Nodyn Swyddogol sy'n datgan y grantiau Heddlu dros dro sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer 22/23. Nododd o fewn hwn, gallwn gadarnhau bod £2.4 miliwn yn cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â'r mater mewn perthynas â Heddluoedd Cymru yn methu defnyddio'u cyfraniad Ardoll Brentisiaeth. Dylai'r dyraniad hwn fynd i'r afael â'r mater yn llawn. Dywedodd aelodau'r grŵp wrtho nad yw'r mater wedi'i ddatrys a dywedodd y Comisiynydd Cuthbert wrth y Gweinidog Hart fod yr Heddluoedd wedi ystyried hyn ac o'r farn nad yw'n mynd i'r afael â'r mater yn llawn. Dywedodd y Gweinidog Simon Hart wrth y grŵp y bydd yn cysylltu â'r Gweinidog Malthouse ynglŷn â'r mater hwn.

4.11.Diolchodd y Prif Weinidog i'r grŵp am eu cyfraniadau. Esboniodd ei fod am fynd i'r afael â mater partneriaeth a chomisiynu gwasanaethau trwy'r Byrddau Cynllunio Ardaloedd a dywedodd mai Tracey Breheny yw'r arweinydd ar y pwnc hwn. Nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau trwy Fyrddau Cynllunio Ardaloedd. Gofynnodd y Prif Weinidog i Tracey Breheny drafod y materion a godwyd gan PG Kelly y tu allan i'r cyfarfod hwn.

4.12.Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Diolchodd DPG Blakeman i bawb am y cyfle i drafod y mater hwn a'r gwaith parhaus yn ymwneud ag ef. Esboniodd DPG Blakeman fod y Dirprwy Gomisiynydd Wools yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Sefydlwyd Tasglu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan y Dirprwy Gomisiynydd Wools o Dde Cymru a'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas o Went i greu'r strwythur angenrheidiol i ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd. Esboniodd DPG Blakeman yn rhan gyntaf y Tasglu, bydd pob heddlu yng Nghymru yn adrodd yn ôl o'u Grŵp Aur ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y caiff pob un ohonynt eu cadeirio gan Brif Swyddog. Ychwanegodd fod gan bob heddlu ei strategaeth ei hun, wedi'i hadeiladu ar y gwaith cenedlaethol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Strydoedd Mwy Diogel o ran sut maent yn ceisio deall cymunedau a sut y gall heddluoedd ddefnyddio cyllid Strydoedd Mwy Diogel i gyflawni buddiannau gwirioneddol.

Gall tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gysylltu â'r Grŵp Safonau Gweithredol sy'n eistedd yn genedlaethol sy'n eu galluogi i fwydo i mewn i'r Tasglu. Mae ail ran y Tasglu yn hwyluso gwaith effeithiol ar draws partneriaid a Llywodraeth Cymru, gyda sawl partner yn arwain mewn modd effeithiol yn y maes hwn.

Gwnaeth hyn alluogi'r tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i edrych ar ailddatblygu'r strategaeth a oedd wedi dod i'w bwynt pum mlynedd. Cafwyd dymuniad i wneud hwn yn ddull glasbrint i sicrhau bod asiantaethau'n gweithio ar y cyd.

Esboniodd DPG Blakeman fod Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn flaenoriaeth i'r maes plismona yng Nghymru. Felly, mae pob Prif Gwnstabl wedi rhoi cyllid ychwanegol tuag at swydd Prif Uwch-aroogydd, gan adeiladu ar waith a gychwynwyd gan DCI Amanda Venn, a weithiodd yn llwyddiannus ledled Cymru i gyflawni'r nodwedd dactegol angenrheidiol. Nododd y gallwch weld yr ymrwymiad trwy adnoddau, gan gynnwys adnoddau o fewn Uned Gyswilt yr Heddlu, Plismona, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Llywodraeth Cymru.

Mae DPG Blakeman wedi bod mewn cysylltiad â DPG Maggie Blyth a nododd fod Cymru'n gallu symud yn gyflym yn sgil dod â phartneriaid annatganoledig a datganoledig at ei gilydd. Teimla DPG Blakeman fod hyn yn bwysig oherwydd gall y grŵp symud yn gyflym ar eitemau fel Everyone's Invited. Rhoddodd DPG Blakeman ac eraill dystiolaeth yn y Senedd yr wythnos flaenorol mewn perthynas ag adroddiad Estyn a cham-drin rhwng cyfoedion (Peer on Peer), sef darn hanfodol o waith sy'n cysylltu â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched.

Trosglwyddodd DPG Blakeman i'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas i drafod unrhyw bwyntiau i'w nodi. Diolchodd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas i DPG Blakeman am ei throsolwg cynhwysfawr ond roedd am bwysleisio fod y grŵp yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd a fydd yn cael

Not protectively marked – Heb farc diogelu

ei gyd-gadeirio gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a chan Plismona yng Nghymru, a fydd yn llywodraethu trefniadau i ymgorffori a llywio'r strategaeth newydd.

Esboniodd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas fod y grŵp am ddangos bod Plismona yng Nghymru yn dangos ei rôl arweiniol yn y maes hwn, ond yn cydnabod bod angen i bob partneriaeth gydweithio.

4.13.Diolchodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i DPG Blakeman a'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas am eu cyflwyniad trwyadl. Roedd am esbonio i'r Gweinidog Malthouse fod y dull glasbrint wedi'i ddefnyddio'n effeithiol yn y Strategaeth Cyfiawnder Ieuentid a Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Crybwyllodd arsylwadau'r Gweinidog Malthouse mewn perthynas â chydweithio a chyflwyno Ymgyrch Soteria ac roedd yn fodlon iawn ar hyn.

4.14.Nododd y Gweinidog Malthouse y cyflwyniad manwl a chrybwyllodd ei bod hi'n dda gweld yr holl heddluoedd yn cydweithio. Esboniodd ei bod hi'n hollbwysig codi'r cyfraddau colffarnu achosion o Drais a Throseddau Rhywiol Difrifol ar draws y DU i gyd. Mynegodd y Gweinidog Malthouse dan rai amgylchiadau fod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd megis erlyniadau heb ddioddefwr lle eir ar drywydd erlyniadau nad yw'r dioddefwr yn eu cefnogi. Yn yr un modd, mae angen mwy o ddewrder o ran dwyn achosion i'r llys mewn perthynas â Thrais a Throseddau Rhywiol Difrifol.

4.15.Roedd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas am roi sicrwydd i'r Gweinidog Malthouse fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn bartneriaid yn y gwaith hwn. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynychu Rhan B Tasglu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ynghyd â phartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill a Llywodraeth Cymru. Roedd am dynnu sylw at y ffaith fod Plismona yng Nghymru yn gweithio ar y cyd, gan gadeirio cynllun gweithredu Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu.

4.16.Roedd DPG Blakeman am dynnu sylw at gyfraniad DPG Parmenter gan ei bod hi'n arwain y gwaith yn ymwneud â'r lleoliad addysg a Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru sy'n hollbwysig o ran buddsoddi i roi'r cychwyn cywir i bobl ifanc.

4.17. Datblygu Polisi a Strategaeth Ehangach

Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem a soniodd fod papur ynghlwm â'r eitem hon gan Plismona yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar wersylloedd diawdurdod a'r Bil sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth y DU.

Mynegodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, bryderon am reoli'r Bil gan fod Llywodraeth Cymru yn ei hanfod yn gwrthwynebu troseddoli cymunedau Teithwyr Sipsiwn Roma, ond yn croesawu'r dull gweithredu a awgrymir gan Plismona yng Nghymru. Mynegodd hefyd ddymuniad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes achos i ddefnyddio'r pwerau yng Nghymru. Esboniodd y Gweinidog Hutt fod y ddarpariaeth i Deithwyr Sipsiwn

Not protectively marked – Heb farc diogelu

Roma yn flaenoriaeth yn Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau hynny. Ymhelaethodd ar y pwynt drwy ddweud fod hyn hefyd yn rhan allweddol o Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

4.18. Esboniodd y Gweinidog Malthouse ei fod wedi siarad â'r Gweinidog Hutt mewn perthynas â'r materion hyn. Ychwanegodd fod Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â phryderon am y Bil hwn ac eglurodd y byddai'r pwerau at ddefnydd yr Heddlu yn unig ac er mwyn i dirfeddianwyr weithredu arnynt ond bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canllawiau yn fuan.

Roedd y Gweinidog Malthouse yn cytuno â phwynt y Gweinidog Hutt mewn perthynas â phwysigrwydd Awdurdodau Lleol yn diwallu eu dyletswyddau dan y Ddeddf Tai.

Esboniodd y Gweinidog Malthouse fod lleiafrif o'r gymuned o Deithwyr Sipsiwn Roma a Theithwyr yn cymryd rhan mewn rhywfaint o weithgarwch anawdurdodedig. Roedd Llywodraeth y DU yn teimlo bod angen ymateb i hyn drwy ddeddfwriaeth ond pwysleisiodd y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hystyried yn rheolaidd.

4.19. Diolchodd PG Foulkes i'r Gweinidog Hutt am ei chyfraniad at y pwnc hwn. Esboniodd fod Plismona yng Nghymru yn awyddus iawn i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn. Esboniodd PG Foulkes fod anawsterau wrth sefydlu safleoedd tramwy newydd sy'n rhoi her wirioneddol i bawb.

Mewn perthynas â phwerau Plismona ar y pwnc hwn, bydd Plismona yng Nghymru yn sefydlu gweithgor dan arweiniad uwch-swyddog er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson.

Trosglwyddodd y Prif Weinidog awenau'r cyfarfod i'r Comisiynydd Cuthbert, gan esbonio bod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r rhwystredigaethau a drafodwyd yn y cyfarfod hwn. Diolchodd y Prif Weinidog i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Malthouse a arhosodd drwy'r cyfarfod ac a gododd rai materion pwysig.

5. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio

Cyflwynodd y Comisiynydd Cuthbert yr eitem ac esboniodd fod nifer o faterion eisoes wedi'u codi yma.

5.1. Pwysau ar y gwasanaethau cyhoeddus fel pwysau'r Gaeaf. Esboniodd y Comisiynydd Cuthbert fod hyn yn dilyn y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona diweddaraf.

5.2. Yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

5.3. Dymuna Andy Marsh o'r Coleg Plismona fynychu'r Bwrdd Partneriaeth Plismona nesaf i weld sut mae'r bartneriaeth yn gweithio yng Nghymru ond

Not protectively marked – Heb farc diogelu

hefyd er mwyn trafod mater Plismona a Llywodraeth Leol, yn enwedig o gwmpas datblygiadau 101.

6. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad

Aeth y Comisiynydd Cuthbert drwy bob diweddariad i sicrhau nad oedd materion i'w huwchgyfeirio.

6a. Tynnodd y Comisiynydd Cuthbert sylw at yr Hawl i Holí leuenctid y cymerodd Gwent ran ynddo a theimlodd ei fod yn ymarfer gwerth chweil.

Mynegodd y Comisiynydd Michael ei bryderon mewn perthynas â'r daflen a ddosbarthwyd i aelwydydd yn cyfathrebu'r gwaith o gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Dywedodd wrth y grŵp fod y daflen yn datgan y dylid cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol os oes problem ond i gysylltu â'r Heddlu mewn argyfwng. Ychwanegodd y Comisiynydd Michael mai'r broblem yw nad oedd rhifau ffôn wedi'u darparu ar y daflen ac mae'n nodi bod y cyhoedd yn gwybod sut i gysylltu â'r Heddlu, ac felly mae'r Heddlu yn debygol o gael ei lethu.

Mae ymateb wedi dod i'r Comisiynydd Michael wrth Julie Morgan AS a amlinellodd y materion y cytunwyd arnynt ond ni ddarparodd ymateb i'r mater penodol hwn. Mynegodd y Comisiynydd Michael ei ddiddordeb i drafod hyn all-lein.

Roedd PG Foulkes am ddwyn sylw'r aelodau at y ffaith fod Gogledd Cymru wedi cyflawni un o'i atafaeliadau cyffuriau mwyaf mewn hanes gyda 50kg o gyffuriau Dosbarth A a B ac 13 o bobl wedi cael eu harestio. Mae Gogledd Cymru hefyd wedi cael ei herlyniad cyntaf am Gaethwasiaeth Fodern.

Yn ogystal, trafododd PG Foulkes Labordai Effaith ACE sy'n cael eu noddi gan y Swyddfa Gartref. Esboniodd mai achos Gogledd Cymru aeth i'r labordai; roedd yn edrych ar sut y gall technoleg wella'r ffordd y mae'r Heddlu yn ymchwilio i drais a darparu gwell canlyniadau i ddiodefwr. Mae PG Foulkes wrthi'n ystyried hyn.

6d. Nododd Tracey Cooper nad oedd materion i'w huwchgyfeirio ond roedd am i Joanne Hopkins roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad cyhoeddus a lanswyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn gynharach yn yr wythnos ar Gymru wedi'i Llywio gan Drawma.

Dywedodd Joanne Hopkins mai pwrpas y fframwaith hwn oedd deall, atal a chefnogi effeithiau trawma mewn adeg o drallod. Esboniodd mai dogfen wedi'i chynhyrchu ar y cyd â'r Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Straen Trawmatig Cymru oedd hon ochr yn ochr â phobl gyda phrofiadau byw a Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Gwnaeth Joanne Hopkins annog aelodau o'r grŵp i edrych ar y fframwaith.

6h. Roedd Jon Drake am fynegi ei werthfawrogiad o'r trafodaethau a gynhaliwyd heddiw. Ychwanegodd fod yr holl faterion hyn yn cefnogi gwaith yr Uned Atal Trais.

Not protectively marked – Heb farc diogelu

6i. Dywedodd y Comisiynydd Michael wrth y grŵp ei fod yn cadeirio'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel ac esboniodd eu bod yn aros i gyd-gadeirydd gael ei benodi o Lywodraeth Leol a bydd hyn yn digwydd ar ôl yr etholiadau. Roedd am nodi bod Emma Thomas wedi ymgartrefu yn ei rôl newydd yn gyflym a'i bod yn gwneud gwaith rhagorol. Mae'r Comisiynydd Michael yn obeithiol am y ffordd y mae'r gwaith hwn yn datblygu.

7. Unrhyw Fater Arall

Ni chafodd unrhyw fater ei ddatgan, ond roedd y Gweinidog Malthouse yn awyddus i nodi iddo deimlo i'r cyfarfod fod yn fanteisiol ac roedd yn gobeithio y byddai'n gallu mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn parhau i gydweithio.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Iau 23 Mehefin 2022 am 3pm